



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl ddarllenwyr!

Gyda thristwch mae'n rhaid i *Bapur Pawb* gofnodi fod y math o broblemau ymddygiad gwrth gymdeithasol mae rhywun yn ei gysylltu yn fwy efallai gyda'r trefi, bellach yn rhan o fywyd bob dydd cymuned Tal-y-bont. Yn ystod penwythnos olaf mis Tachwedd achoswyd difrod troseddol tra sylweddol i dai ac eiddo yn rhan uchaf pentref ger Penlon yn ystod oriau mân bore Sul y 27ain. Torrwyd ffenest ôl un car yn yfflon a gwnaed difrod i ffenest tŷ gerllaw a gwrthwyd drws tŷ arall i mewn yn dilyn ffrwgwd rhwng unigolion. Cawn ar ddeall bod pentrefi eraill o fewn yr ardal wedi profi problemau anghymdeithasol hefyd yn ystod y misoedd diwethaf. Ymatebodd yr heddlu yn gyflym ac yn broffesiynol i'r broblem ac maent yn ymchwilio i'r mater ar hyn o bryd ac mae pob gobaith y bydd modd dod â'r troseddwyd i'r llys.

Gyda Llywodraeth Llafur Llundain a'r Gweinidog Cartref Charles Clarke yn gwrthio'r achos am un awdurdod Heddlu ar gyfer Cymru gyfan mae digwyddiad o'r fath yn codi cwestiynau pwysig am beth fyddai dyfodol plismona yng nghefn gwlad o dan gyfundrefn o'r fath. Fyddai Ceredigion wledig yn gorfod ymladd i sicrhau adnoddau yn erbyn dinasoedd poblog y de er enghriaft? Yr adnoddau rheiny sy'n sicrhau fod yr heddlu yn medru ymateb ar unwaith i achosion tebyg i'r hyn a brofwyd yn Nhal-y-bont.

Hyderwn mai eithriad oedd y problemau a welwyd yn Nhal-y-bont yn ddiweddar ac na fydd rhaid i drigolion y pentref ddioddef fandaliaeth diystyr o'r fath yn y dyfodol.

Fandaliaeth



Ffair y Neuadd t6

PENBLWYDD ARBENNIG
Dymuniadau gorau i Alun Williams, Penrhos a oedd yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.


WEDI BOD YN YR YSBYTY
Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Eifion Jones, Craig-y-delyn, Tal-y-bont, a dderbyniodd driniaeth frys yn Ysbyty Bronglais a chroeso adref i Gareth Jones, 2 Maes Clettwr, Tal-y-bont a John Davies, Tŷ Mawr Llan, Llangynfelyn sydd wedi bod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaethau yn ddiweddar.

GOHEBYDD ARALL I DRE'R-DDÔL
Croeso i Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl, sydd wedi gwirfoddoli i helpu Susan Lewis gyda chasglu newyddion y pentref ar gyfer y papur. Cofiwch gysylltu ag un o'r ddwy os gwyddoch am unrhyw stori ddiddorol, llun o ddathliad neu ddigwyddiad arbennig, neu bytiau 'Pobl a Phethe' ar gyfer eu rhannu â'n darllenwyr. Cofiwch – mae'r cais yma yr un mor berthnasol, wrth gwrs, ar gyfer trigolion y pentrefi eraill!

AELODAU NEWYDD
Mewn gwasanaeth cymun yng nghapel Bethel, Tal-y-bont, fore Sul 20 Tachwedd, derbyniwyd tri aelod newydd, sef Lyn Hammonds, Bryn-y-wawr, a Iestyn a Catrin Mai Davies, Tŷ Gwyn.

DIOLCH I'R TÎM
Ddwy flynedd yn ôl – pan ymddeolodd Ithel a Valma Jones a'r tîm fu'n plygu a dosbarthu *Papur Pawb* am ryw ugain mlynedd yn ddi-dor – cafwyd cymorth parod iawn gan dîm newydd o blygwyr a dosbarthwyr. Bob mis, byddai Dafydd Parry yn croesawu tair o ferched ato i Gwm-glas – Lyn Hammonds, Beti Jenkins a Gwenllïan Parry-Jones – a byddai'r pedwar wrthi'n ddiwyd yn plygu'r papur a'i baratoi ar gyfer y dosbarthwyr.

Bellach, gyda newidiadau ym mheiriannau'r Lolfa, nid oes angen ond un person i wneud y gwaith hwn, ac mae Gwenllïan wrthi'n brysur bob mis, gyda help pan fo angen gan Lyn a



ENNILL GWOBR
Llongyfarchiadau mawr i Ffion Haf, Berthlwyd, Tal-y-bont ar ennill peiriant pluo mewn cystadleuaeth yn y cylchgrawn *Practical Poultry*.

Beti. Diolch yn fawr i Dafydd am fod mor barod ei help a'i groeso dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch hefyd i'r dosbarthwyr – Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllïan Parry-Jones ac Eurllys Jones (Tanysgrifiadau) – am sicrhau bod y papur yn cyrraedd y darllenwyr yn brydlon.

DYWEDDIAD
Llongyfarchiadau i Aled Jones, gynt o Lys-Dewi, Tal-y-bont a Nia Jones, Goginan ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Debbie a Wyn Benjamin ar enedigaeth eu mab Thomas Jack a Karen Roberts a Dexter Farr ar enedigaeth eu merch, Chloe Megan, wyres i Gethin a Heiddwen Roberts, 11 Maes y Deri, Tal-y-bont.

Ganwyd nifer o blant yn ystod y mis diwethaf ac anfonwn ein llongyfarchiadau hefyd i Tesa Evans, 15 Maes y Deri, Tal-y-

bont sydd wedi cael ŵyr bach, sef Sam Evans, mab i Charles Arnoldine Evans.

Yn ogystal ganwyd Joel, bachgen bach i Wayne a Nicola Bradley, 97 Maes y Deri, ac ŵyr i Mr a Mrs Arwel West.

YN YR YSBYTY
Wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg, daeth y newyddion fod John Bond, Bro Dawel, Taliesin, wedi mynd i Ysbyty Treforus, Abertawe. Dymunwn wellhad buan iddo, ac edrychwn ymlaen i'w weld yn ôl adref cyn bo hir ac i Dr Eirwen Gwynn, Cwmcerwyn, sydd yn Ysbyty Machynlleth.

SWYDD NEWYDD
Pob dymuniad da i Rhian Jones, Eurfan, a fydd yn cychwyn ar ei swydd newydd fel Cydlynnydd Addysg gyda Shelter Cymru ym mis Ionawr.

GWELLHAD BUAN
Dymunwn wellhad buan i Mrs Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont

sydd wedi torri asgwrn yn ei throed yn dilyn damwain ac i Rhodri Griffiths, Stryd y Felin, Tre'r Ddôl, sydd wedi anafu ei goes wrth chwarae pêl droed.
Anfonwn ein cofion at Mr Roberts, Wesley Terrace, Taliesin, sydd yn Ysbyty Bronglais ers rhai wythnosau. Gobethio y bydd yn teimlo'n well yn fuan.

BEIRNIADU
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Dilys Morgan, Alltgoch ar gael ei dewis i feirniadu yn Adran Grefft y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ddiweddar.

WYRES NEWYDD
Llongyfarchiadau i Gareth a Gwen Hughes, Coetmor, Tal-y-bont, ar enedigaeth wyres fach newydd. Ganed Molly Elin - merch i Gwenno ac Andy - yng Nghaerdydd ddydd Sul 27 Tachwedd. Pob dymuniad da i'r teulu.

DIOLCH
Diolch yn fawr i Mr P. M. Davies a phlant Ysgol Llangynfelyn am fynd o gwmpas ar ôl eu Cwrdd Diolchgarwch i rannu'r cynnyrch ymysg henoed y pentref.

CROESO ADREF
Croeso cynnes adre o'r ysbyty i Mrs Pat Harris, Winllan, Tal-y-bont.

ENNILL GWOBR
Llongyfarchiadau i Arwyn Cefngweiriog ar ennill pêl rygbi wedi ei arwyddo gan dîm Rygbi Cymru ar raglen Planed Plant yn ddiweddar.

CROESO NÔL
Croeso adref i Kimberly Lewis, Tre'r Ddôl ar ôl treulio rhai misoedd yn Ne Affrica.

CARTREFI CYNNES

WÂRME
SYSTEM WRESOGI GADWRAETHOL
DIFYDANNOL LHZ

Ar gyfer gwresogi effeithiol, economaidd
ac arwyddeddol ffafriol

Eich yngyghorydd ffordd:
Gwelfor
3 Ffres Eirion
Fflwais
Machynlleth
Powys
SY20 8PH

Ffôn 01854 781348
Ffôn ffrâm 07840 530495
e-mail ian@pwrllh@btinternet.com

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



Nadolig llawen iawn oddi wrth Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

GWASANAETH NADOLIG

Hoffai staff yr ysgol ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieny am eu cymorth yn paratoi ar gyfer digwyddiadau'r tymor ac mae'n siŵr mai'r uchafbwynt fydd ein gwasanaeth Nadolig a gynhelir yng Nghapel Bethel ar y 15 fed o Ragfyr am 7.00. Croeso i chi ymuno gyda ni nôl yn yr ysgol am banded a sgwrs wedyn.

SBRI-DI-RI

Cafodd y plant lleiaf gyfle arbennig i fynd i ganu a dawnsio gyda Gwenda Owen a'i ffrindiau yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod y mis. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

ARAD GOCH

Aeth plant hynaf yr ysgol i Amgueddfa Ceredigion i weld Cwmni Theatr Arad Goch yn perfformio eu drama diweddaraf, 'Merch Cae Bach'. Roedd y ddrama'n seiliedig ar brofiadau ifaciwis yn cyrraedd cefn gwlad Ceredigion o ddinas fawr Lerpwl. Llwyddwyd i drosglwyddo'r neges yn wych ac mae'n amlwg fod y stori wedi cydio yn nychymyg y plant oherwydd safon y gwaith a ddilynodd y sioe.

Y CWMNI OPERA CENEDLAETHOL

Daeth aelodau o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru i'r ysgol Dydd Mawrth diwethaf i ganu efo plant blwyddyn 5a6. Diolchwn yn fawr iddynt am ddod i yma ac fe gafodd pawb lawer o hwyl yn gwrando yn cadw curiad, yn tynnu lluniau ac yn canu. Bydd croeso mawr iddyn nhw ddod yma eto yn y dyfodol.

CAPEL NAZARETH

Ar Ddydd Mercher olaf y mis aeth yr ysgol gyfan i Gapel Nazareth. Cafwyd neges bwrpasol iawn gan y gweinidog Y Parch Robert Jones ac yn ystod y gwasanaeth roedd hi'n ddoniol iawn i weld rhai o yr athrawon yn actio fel mwncïod. Hoffai'r ysgol ddymuno'n dda iawn i Mr Jones yn ei ymdeoliad a diolch iddo am gefnogi'r ysgol dros y blynnyddoedd.



PLANT MEWN ANGEN

Cafwyd diwrnod arbennig o wisgo gwisg ffansi eleni i godi arian i Blant Mewn Angen. Bu'r Clwb ar ôl Ysgol yn paratoi danteithion blasus ar gyfer eu gwerthu yn yr ysgol ac fe godwyd dros £70.

**A DAVIES
TRYDANOL**

Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213



Os am ddaethu heb inni

**CAMBRIAN
CABS**

Deirhian Bell ac Agos
01970 626292

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Sbri di Ri

Cafodd disgyblion CA1 y fraint o ymuno gyda Sali Mali, Jac y Jwc a nifer o ffrindiau eraill i fwynhau orig o ganu a dawnsio yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dan arweiniad Gwenda Owen buont yn canu nerth eu pennau, a chael hwyl fawr.

Sesiwn Rygbi

Bu llwyddiant tim rygbi Cymru yn ddiweddar yn cyd-fynd â llwyddiant rygbi yn Ysgol Gymunedol Llangynfelyn. Cafwyd ymweliad gan Alwyn Davies, Swyddog Datblygu Rygbi yng Ngheredigion, ac fe gafwyd prynhawn yn llawn hwyl yn datblygu sgiliau cyd-weithio a chyfathrebu, ac fe gafwyd gêm o rownderi rygbi i goroni y prynhawn.



Marc Safon

Mae Ysgol Gymunedol Llangynfelyn wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto yn ennill y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Rhaid oedd i'r ysgol ddangos ei bod yn blaenoriaethu ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol, a'i bod wedi gosod cynlluniau penodol ar gyfer y blaenoriaethau hynny. Fe ddangosir gwelliant yn nealltwriaeth a gallu y plant o'r herwydd.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau calonnog i grŵp gymnasteg yr ysgol, a'u harweinydd, Jenny Dingle, am fod yn llwyddiannus iawn yn ennill cystadleuaeth gymnasteg i ysgolion bach yn ardal Aberystwyth – cystadleuaeth a drefnwyd gan yr Urdd. Bydd y grŵp llwyddiannus yn awr yn mynychu y gystadleuaeth genedlaethol ym Mis Chwefror.

Diolchgarwch

Cafwyd gwasanaeth hyfryd o ddiolchgarwch eleni. Yn dilyn thema “Ni ein Hunain”, cafwyd cyflwyniadau addas iawn gan y dosbarthiadau, a hanes y mab afradlon gan Parch Roger Thomas. Braf oedd gweld neuadd Llanfach, ar ei newydd wedd, yn gyfforddus lawn. Braf hefyd oedd gweld yr arddangosfeydd o gynnyrch a roddwyd i'r ysgol, ac fe fu disgyblion blwyddyn 6 yn brysyr y diwrnodau canlynol yn dosbarthu y rhain i rai o henoed yr ardal. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Tân Gwylt

Ar y 3ydd o Dachwedd, yng nghanol glaw a gwynt rhyfeddol, cafwyd ennyd fechan o ryw hanner awr, lle cafwyd sioe gwerth ei gweld o dân gwylt ar dir yr ysgol – wedi ei drefnu gan y G.R.H.A.. Roedd y dorf sylweddol a fentrodd allan ar noson mor filain wedi cael cyfle cyn hynny i fwynhau cwpanaid o gawl poeth, a chyfle i weld arddangosfa o lyfrau gan Gyngor Llyfrau Cymru. Hyfryd oedd cael y cyfnod sych i fwynhau y tân gwylt, ac fe gafodd pawb fynd adref heb wlychu. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y noson lwyddiannus hon.

Ioga

Mae disgyblion blwyddyn 2 a 3 yn yr ysgol, yn blant ymlaciedig iawn. Maent wedi bod yn mwynhau sesiynau ioga, ac yn ymateb yn ffafriol iawn i'r profiad.

Cyfaill o Lydaw - Samuel Allo

Cafodd plant CA 2 y cyfle unigryw o gyfarfod ag athro o Lydaw, i glywed storïau lleol a chaneuon lleol. Bu Samuel Allo, sydd yn athro chwaraeon o Lydaw, yn ymweld â'r ysgol, ac yn rhannu ychydig o hud a lledrith Llydaw gyda'r plant. Cawsant ddysgu cân forwrol Lydawaidd, ond hefyd cawsant y cyfle i addysgu Samuel sut oedd canu cân Mr Urdd. Roeddylt wrth eu bodd.

Bwyd a babis

Wrth ddilyn thema “Ni'n Hunain”, cafodd disgyblion bl 2a 3, ymweliad gan Ms Sarah Childs, a fu'n trafod gofalu am blant bychain, a'r bwydydd sydd yn addas iddynt. Bu'r sesiwn yn fuddiol i'r plant, ac roedd y cyflwyniad wrth eu bodd.

Cerameg

Gan ystyried eu hoff fywdydd, bu bl 3 a 4 yng Nghanolfan y Celfyddydau yn mynychu sesiwn Cerameg. Cawsant dreulio amser yn gwerthfawrogi y gweithiau cerameg sydd yn y galeri yno, cyn mynd ymlaen i gynllunio a gwneud eu gwaith eu hunan, sef llond plat o'u hoff fwyd. Hyderwn na fyddant yn torri eu dannedd drwy geisio eu bwyta!



Bocsys Nadolig

Yn hytrach na gwneud casgliad ariannol adeg diolchgarwch eleni, penderfynwyd y byddem fel ysgol yn casglu bocsys esgidiau, a'u llanw gydag anrhegion i blant a phobl llai ffodus. Fe lwyddwyd i gasglu yn agos i ddeugain o focsys, ac fe gafwyd ymweliad gan Mr Evan Davies, o elusen Blythswood, a ddaeth i esbonio mwy am y gwaith i'r plant, ac i ddanfon y bocsys ar gan cyntaf eu siwrnai. Hyderwn y bydd Nadolig ambell blentyn yn hapusach eleni oherwydd bocs o roddion o Ysgol Gymunedol Llangynfelyn.

Dymuna staff a digybllion Ysgol Gymunedol Llangynfelyn Nadolig llawen iawn i holl ddarllenwyr Papur Pawb.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2005 - dros £12,000 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Y Gronfa
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: iolo.apgwynn@tiscali.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 20fed 2006

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

NEUADD GOFFA TALYBONT

Er gwaetha'r tywydd oer a'r eira cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn ar bnawn Sadwrn, 26 Tachwedd. Roedd y stondinau arferol yn llawn nwyddau o bob math. Ar ôl agor y Ffair yn swyddogol gan Mr Goronwy Jones, fe aeth pawb ati i brynu ac i wario eu pres ac yna i sgwrsio a chymdeithasu dros baned o de a chacen nes ei bod yn amser i dynnu'r raffl. Er mawr syndod, mae'r raffl yn dal i fod yn boblogaidd dros ben!

Fel y gwyddoch, i gadw'r Neuadd yn y cyflwr presennol, mae costau cadw a chynnal yn cynyddu yn flynyddol ac mae cynnal achlysuron o'r math yma yn help i gadw prisiau llogi'r Neuadd yn isel ar gyfer y gwahanol gymdeithasau sydd yn defnyddio'r Neuadd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bob cymdeithas am gynnal stondin a hefyd i'r cyhoedd a ddaeth i gefnogi'r achlysur ac yn olaf i fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor Rheoli am eu cefnogaeth barod bob amser.

Rydym bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd ar y Pwyllgor Rheoli ac os oes gan unrhywun ddiddordeb mewn ymuno â ni, yna, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar yr ail nos Fercher o bob mis am 8.00 o'r gloch yn y Neuadd.

E.J.



**Gwasanaeth
Glanhau yn y cartref**
yn ardal Tal-y-bont.
Oriau hyblyg. Am ragor o
fanylion ffoniwch: 832643.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martie Davis
lwy-coed, Tre Talleis, MACHYNELLETH
Penys 3720 RUG Cymru
Ffôn/Ffôn +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

**Siop y Pethe
Aberystwyth**
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



Mr Goronwy Jones

Sefydliad y Merched Eglwysfach

Cynhaliwyd y cyfarfod Blynyddol ar 7fed o Dachwedd.
Y pwyllgor am 2005/2006 yw:
Lillian Hughes (Llywydd); Judith (Is-lywydd); Jill Roberts (Ysgrifennyddes); Celia Groves (Trysorydd); Wendy Fuller (Ysgrifennyddes Cofnodion); Jo Peltit; Judith Hopkins; Liz Spencer.
Cafwyd cwis i ddilyn yr etholiad.

Noson Gwis

Cafodd pawb noson fendigedig ar 12fed o Dachwedd. Gyda 10 tîm o bedwar yn cymryd rhan. Y tîm buddugol oedd – Vik Banford, Ursula Byrne, Judith Pearson a Wendy Fuller. Diolch yn fawr iawn i Roy Banford a Chris Fuller am drefnu y cwestiynnau. Mae pawb yn edrych ymlaen i'r un nesaf yn y dyfodol agos. Mi godwyd £80 tuag at Neuadd yr Eglwys.

Adroddiad C.Ff.I Tal-y-bont a'r Cylch

Ar nos Fawrth, 15 Tachwedd cafwyd noson o 'Who wants to be a Millionaire'. Bu cystadlu brwd rhwng 4 tîm ar y noson. Gyda'r aelodau hyna mor gystadleuol â'r rhai iau! Yr wythnos ganlynol, cafwyd noson dra gwahanol yn y clwb, noson o grefft yng ngofal Meinir Green, ein Swyddog Bro. Buom yn creu cardiau nadolig o bob lliw a llun, gyda'r aelodau i gyd wrthi'n ddiwyd yn datblygu eu crefftwaith. Yn dilyn hyn, ar nos Fawrth, 29 Tachwedd, buom yn chwarae pêl-droed, 5 bob ochr, yn neuadd y Ganolfan Hamdden, Plascrug.

Byddwn eleni eto, ddechrau Rhagfyr, yn teithio o amgylch yr ardal yn canu carolau gan godi arian at achosion da, sef Nyrsus MacMillan, Canolfan Lluest a Chartref Tregerddan.

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigaranau a ddaeth yn fuddigol yng nghystadleuaeth Barnu Carcas trwy sir Geredigion – tipyn o gamp! Mi aeth ymlaen i gynrychioli'r sir yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ddiwedd Tachwedd.



Geraint Jenkins



**Gwersi Gitâr, Gitâr Fas,
Drymiau**
a Mandolin, Bouzouki,
a Banjo 5-tant
Dafydd Saer BMus
832141

I.O.Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn
Cig Ffres i'r Rhewgell, Seliog Cartref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659




Clwb ar ôl Ysgol

Karen Bulman a Debbie Benjamin cydarweinwyr y clwb a cynrychiolydd o'r Co-op
Cafodd Clwb ar ôl Ysgol Talybont grant o £500 oddi wrth y Co-op i brynu adnoddau i hybu bwyta'n iach. Prynowyd meicrodon, ffrwn, prosesydd bwyd a llawer o offer ceginio gyda'r arian. Dymunau'r clwb ddiolch yn fawr i Co-op am ei caredigrwydd.



Gwobr Arlunio

Llongyfarchiadau i Steffan Thomas a Gwenno Evans, Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ar ennill gwobrau arlunio mewn cystadleuaeth 'Arlunio Mawr' a drefnwyd gan orielau Aberystwyth. Enillodd Gwenno yr ail wobr a chafodd Steffan gymeradwyaeth uchel yng nghategori Plant Ysgolion Cynradd.



Pris Llwyddiant!



Heb unrhyw amheuaeth mae cynllun biniau ailgylchu pentref Tal-y-bont wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae'r ystadegau am y defnydd a wneir o'r pedair safle ar ddeg sy'n rhan o gynllun y Cyngor Sir yn dangos fod safle Tal-y-bont yn dod yn gyson agos i'r brig. Mae ymrwymiad a chefnogaeth y Clwb Ieuenctid i'r fenter sy'n gofalu am y safle hefyd i'w ganmol.

Serch hynny mae pris i'w dalu am y llwyddiant gan fod y biniau'n llanw'n gyflym. Mae nifer o ddarllenwyr Papur Pawb wedi ymweld â'r safle'n ddiweddar ac wedi gorfod cludo'r deunydd ddaethpwyd i'w ailgylchu yn ôl adre gyda nhw oherwydd fod y biniau yn gyson orlawn. Wrth gwrs rhaid derbyn ei bod yn anodd mesur a rheoli amllder y casgliadau a wneir. Cesglir deunydd o'r safle ddwy waith yr wythnos ar hyn o bryd, yn ystod dydd Llun a dydd Gwener ac mae modd i'r Cyngor wneud casgliadau ychwanegol fel bo'r angen yn codi. Yn dilyn y problemau diweddar gwnaeth *Papur Pawb* ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ag amllder y casgliadau. Cafwyd ar ddeall fod rhai problemau wedi effeithio ar y casglu. Yn gyntaf bu'r cerbyd casglu yn y garej ac yn ail amharwyd ar amllder y casgliadau oherwydd y tywydd oer gan fod gofyn i yrwyr y Cyngor ganolbwyntio ar sicrhau fod halen ar rwydwaith ffyrdd y sir, er mwyn eu cadw ar agor ac yn ddiogel.

Rhaid derbyn fod amgylchiadau arbennig wedi effeithio ar effeithlonrwydd y cynllun yn ddiweddar, ond rhaid cofio mai cynllun i'r bobl yw hwn ac mae modd i bob un ohonom sicrhau fod y cynllun yn parhau'n llwyddiant. Gellir hysbysu Cyngor Sir yn uniongyrchol am yr angen i wneud casgliadau ychwanegol o'r safle pan fo'r biniau'n llawn. Rhif ffôn canolfan gyswllt y Cyngor yw 01970 633010 neu 01545 572572. Felly cofiwch godi'r ffôn i sicrhau fod cynllun ailgylchu Tal-y-bont yn parhau i fod yn llwyddiannus.

Sul y Cofio

Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio yn ôl yr arfer yn y Neuadd Goffa ar Dachwedd 13eg gan gofio am y rhai o'r gymuned a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Parchedigion Robert Jones a D. Brian Thomas a chafwyd dwy funud o dawelwch am 11 o'r gloch.

Darllenwyd enwau'r rhai a fu farw gan Mr Goronwy Jones a gosodwyd y torchau pabi gan Mr Bob Southgate a Mrs Doris Pierce. Canwyd yr utgorn olaf gan Dennis Foster gyda Mrs Glenys Edwards yn cyfeilio ar y piano. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd £115.61 tuag at Apêl Pabi y Lleng Brydeinig.

Cydnabyddir yn ddiolchgar haelioni mawr yr ardal yn dilyn y Rhyfel Mawr a alluogodd adeiladu'r Neuadd Goffa sy'n parhau i fod yn gaffaeliad mawr i'r pentref.

NABOD

Adam Simmonds

Gyda'r Nadolig yn agosáu peth naturiol yw meddwl am fwyd a pharatoi am yr ŵyl ac er y bydd llawer ohonom yn slafio wrth y stof fe fydd gwrthrych Adnabod tro hyn yn brysurach na phob un o gogyddion cartref ardal Talybont. Ei enw yw Adam Simmonds a fe yw pryf gogydd Gwesty Ynyshir yn Eglwysfach. Mae Ynyshir wedi ennill llu o wobrau ond mae'n debyg mae'r clod uchaf oedd i'r bwyty gael ei ddyfarnu yn Hydref 2005 yn *Welsh Restaurant of the Year* gan y *Good Food Guide*. Mae hyn yn gosod Ynyshir bron ar yr un lefel a bwytai Gordon Ramsay a *Le Manoir aux Quat'Saisons* - gyda rhain ond yn cael ei graddio un marc yn uwch na Ynyshir. Mae hyn oll felly yn golygu fod Adam Simmonds yn un o gogyddion gorau Prydain, ond ble ddysgodd e ei grefft a sut mae e a'i dim yn paratoi am y Nadolig?

Mae Adam yn hanu o gyrion Llundain ac fe ddechreuodd ei ddiddordeb mewn coginio yn yr ysgol - o'r cychwyn cyntaf roedd e'n ymwybodol mae gweithio gyda'i ddwylo oedd e am wneud a dyma feddwl am fod yn *Chef*. O'r ysgol i Goleg Addysg Bellach i wneud cwrs arlwygo a dyma le dysgodd e'r '*basics*.' Oddi yno i'r bwyty cyntaf a chychwyn o ddifri ar feistrol'r grefft o goginio. Fel pob darpar *Chef*, dechrau ar y gwaelod - pilo'r tatws a glanhau llysiau ac yna yn raddol, dringo'r ysgol 'fwydol.' Fe dderbyniodd Adam hyfforddiant gan y meistri mewn bwytai fel Heathcote's a L'Escargot ac yn arbennig gan yr enwog Raymond Blanc yn *Le Manoir aux Quat'Saisons*. Dyma'r lle a'r ffordd i ddysgu'n iawn ac mae Adam yn cydnabod fod llawer o'r gwersi wedi bod yn galed. Mae coginio ar y lefel hyn i gwsmeriaid sy'n talu'n ddrud am y pryd bwyd yn gosod pwysau mawr ar y gegin ac mae'r gwaith yn golygu oriau hir ac yn cario llawer o '*stress*.'

Nifer o flynyddoedd yn ôl fe ddaeth Adam i Ynyshir am ei fod am arwain tîm mewn gwesty bychain wedi ei leoli mewn ardal lle gellid cael a defnyddio'r cynnyrch lleol gorau. Mae Ynyshir yn rhoi pwyslais mawr ar hyn - y cig i gyd yn dod o ladd-dy ym Machynlleth, pysgod yn cyrraedd yn ddyddiol a dewis helaeth o gaws o Gymru. Ond wrth gwrs rhaid wedyn troi'r cynnyrch yn bryd o fwyd o'r safon uchaf a dyma le mae crefft Adam yn dod yn amlwg. Mae'n disgrifio ei goginio fel '*modern European*' ac yn ffafrio arddull ysgafn - un cwrs yn cynnal ac yn gweddu i'r llall a'r cyfan yn osgoi teimlad o orfwyta ar derfyn y pryd. Dyw e ddim yn hoffi defnyddio gormodedd o hufen a sawsau cyfoethog - mae'r cwsmer nawr (yn arbennig y marchod) llawer mwy ymwybodol o'r calorïau ac am gael pryd blasus ond ysgafn.

I ddod yn fwyty gorau Cymru a rhaid bod yn anturus. A dyma, mae'n debyg, sy'n gosod *chef* fel Adam mewn categori gwahanol. Mae'n hoffi arbrofi gyda chyfuniad o wahanol flasau i greu saig fel '*loin*' o borc gyda hufen ia winwns. Ond cyn i'r cwsmer gael y pryd rhaid gwneud yn siŵr fod y cyfan yn iawn ac mae Adam yn cael gweddill y staff a'r perchnogion i flasur arbrawf - a nhw wedyn yn awgrymu newidiadau - ychydig mwy o berlysiau, llai o bupur efallai. A dim ar ôl i'r saig gael ei brofi sawl gwaith mae e'n cyrraedd y fwydlen. Does dim syndod hefyd fod Adam yn gweithio yn agos i'w rysetiau - dyw e ddim fel Jamie Oliver - llond law o hyn a llond dwrn o'r llall. Na rhaid bod yn egsagt - a'r rheswm am hyn yw bod rhaid i'r pryd weithio dro ar ôl tro - yn berffaith heno, nos yfory a drennydd. A'r math o ddewis welwch ar y fwydlen yn Ynyshir? Hyrddyn (Mullet) Coch, Melwn a Foie Gras fel cwrs cyntaf, petrys wedi'i goginio mewn whisgi Cymreig gyda chnau a madarch fel ail gwrs ac yna dewis o bwdinau neu gaws Cymreig

Mae Adam a'i dim wedi cychwyn paratoi am y Nadolig rhyw dair wythnos yn ôl. Rhaid sicrhau fod y nwyddau a'r cynnyrch yn cyrraedd y gwesty mewn da bryd a chofio wrth gwrs fod y Nadolig yn gyfnod gwyliau gyda busnesau yn cau lawr. Dros yr ŵyl fe fydd y pwyslais ar y traddodiadol - twrci a phwdin Dolig a mins peis oherwydd dyna mae pobol yn disgwyl. Fe fydd y cyfan yn cael ei



baratoi yn y gwesty - yr holl bwdinau a chacennau ac yn hyn o beth fydd y Nadolig yn Ynyshir ddim yn wahanol i unrhyw gyfnod arall - yr holl goginio yn cael ei wneud yn y gwesty - dim saws parod a dim byd mas o becyn. Er y cynllunio blaen llaw fe fydd Adam yn y gegin ar ddydd Nadolig a dros gyfnod helaeth yr ŵyl a'r Flwyddyn Newydd. Fe fyddai'n well ganddo fod adref gyda'i deulu ond mae'n derbyn fod ei swydd yn golygu mae cegin y gwesty yw ei le dros yr ŵyl yn hytrach nag adref. Ac ar ddiwedd dydd Nadolig ei hun fydd Adam wedi blino, ond yn hapus os fydd y cwsmeriaid wedi eu plesio.

Mae Adam Simmonds yn naturiol yn falch o'r clod a'r bri sy'n dod yn sgil y gwobrwyon ond wedi cyrraedd y nod rhaid wedyn cynnal a chadw safon. Mae pob noson yr un mor bwysig â'r llall ac mae gweithio ar y lefel hyn rywbeth yn debyg i berfformio mewn theatr. Rhaid i bob pryd bwyd - un ar ôl y llall - fod o'r un safon ac wrth gwrs y gwobrwyon a chlod yr arweinlyfrau sy'n denu'r cwsmeriaid i Ynyshir o bedwar ban byd. Ar ôl darllen y '*guide*' a theithio i ganolbarth Cymru mae disgwyliadau'r cwsmeriaid yn uchel - ac Adam a pherchnogion y gwesty, Rob a June Reen sy'n gorfod sicrhau fod pob ymwelydd yn cael ei blesio ac yn gadael gan gofio fod aros a bwyta yn Ynyshir wedi bod yn brofiad bythgofiadwy.

Ac Adam ei hun - oes gyda fe un tip i chi a fi wrth i ni baratoi ein cinio 'Dolig'? Ei awgrym yw torri'r ddwy goes oddi ar y twrci a'i goginio ar wahân - wedyn fe fydd yr aderyn yn blasu'n well a ddim yn sychu allan wrth goginio. Tip felly oddi wrth y meistri, ond efallai y dylech chi feddwl eilwaith cyn arbrofi gyda'r hufen ia winwns!

GIE

Hanes Mwyngloddio

Ar nos Fawrth, Tachwedd 22ain, cynhaliwyd cyfarfod yn Llanfach, Taliesin dan ofal y cynllun Ysbryd y Mwynwyr, a chafwyd un o'r nosweithiau mwyaf diddorol a llwyddiannus a welwyd yn y pentref ers sawl blwyddyn.

Daeth dros hanner cant ynghyd i glywed Simon Hughes yn sôn am y cyfoeth o olion hanesyddol sydd yn ein cymuned bach ni, ac esboniodd yr ymgynghorydd archaeolegol Paul Sambrook sut y gallwn ddarganfod a chadw ein hanes a'i tynnu at sylw pobl lleol ac ymwelwyr i'r ardal.

Peth da oedd gweld bod hyn yn destun oedd yn denu'r hen bentrefwyr a'r newydd ddyfodiaid, a gobeithir bydd hyn yn arwain at ddatblygu ymwybyddiaeth o'n hetifeddiaeth, a hefyd yn gyfrwng i adeiladu ar yr ysbryd cymunedol newydd a welwyd yn y cyfarfod.

Diolch i bawb a fu yn ymwneud â'r trefniadau, ac i Ellen ap Gwyn am gadeirio.

Mab y pregethwr –
Cynog Dafis; hunangofiant
(Talybont: Y Lolfa, 2005) 285 t. £12.95

Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn *political anorak*. Rwy'n hapus i eistedd o flaen y teledu tan yr oriau mân yn aros yn eiddgar am ganlyniad is-etholiad ym mherfeddion Lloegr ac i fesur y *swing* yn ofalus. Yn yr un modd, byddaf yn darllen a phrynu nifer o gofiannau gwleidyddol. Felly roedd cyhoeddi hunangofiant Cynog Dafis yn fy nghyffroi.

Lansiwyd y gyfrol adeg darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell Genedlaethol, gyda Cynog yn ddarlithydd gwadd. Bu'n trafod y pact gyda'r Gwyrddion a arweiniodd at ei ethol yn aelod seneddol yn 1992. Roedd y ddarlith yn awr a thri chwarter o hyd, ac er yn ddifyr, roedd nifer yn ei chael yn rhy hir.

Mae Cynog yn un o'r gwleidyddion prin hynny sy'n medru ennyn parch pobl o bob safbwynt gwleidyddol, a dyna fu cyfrinach ei lwyddiant etholiadol. Roedd eisoes yn ffigwr adnabyddus cyn 1992 ymhlith y Cymry Cymraeg lle bu'n flaenllaw gyda mudiadau Adfer a Chymdeithas yr Iaith ac yn yr ymgyrch hir i hyrwyddo addysg ddwyieithog; yn ogystal, ac yn gwbl allweddol, roedd ganddo ddealltwriaeth o'r byd amaethyddol. Lledodd ei ddylanwad drwy ei barodrwydd i weithio'n greadigol gyda'r mewnfudwyr, ac yn arbennig felly gyfeillion y Blaid Werdd. Ymddengys fod ei brofiadau fel athro yn Aberaeron, a'i ymwneud â chymaint o deuluoedd o newydd-ddyfodiad, wedi dylanwadu'n drwm ar ei ffordd o feddwl. Roedd ei berthynas arbennig gyda'i gymdogion o Saeson yn Nhalgarreg, a gweld eu plant yn tyfu'n Gymry Cymraeg ac yn cyfrannu at lwyddiant economi'r ardal, hefyd wedi gwneud argraff ddofn arno. Roedd y gwleidydd pragmataidd yma, a'i awydd i weithio ar draws ffiniau plaid, wedi tanio dychymyg y cyhoedd i'r fath raddau fel bod modd iddo godi o'r pedwerydd safle i ennill y sedd yn un o ganlyniadau rhyfeddaf gwleidyddiaeth Ynsoedd Prydain. Am y tro cyntaf erioed roedd nifer o ffactorau allweddol wedi digwydd cyd-daro: roedd cyfran sylweddol o fewnfudwyr wedi pleidleisio dros ymgeisydd Plaid Cymru, roedd wardiau Llafur Aberystwyth wedi newid patrwm oes o bleidleisio, ac roedd nifer dda o ffermwyr Ceredigion, yn arbennig ymhlith y Rhyddfrydwyr, wedi mynegi eu radicaliaeth mewn ffordd gwbl newydd.

Yn dilyn ei fuddugoliaeth annisgwyl, aeth Cynog ymlaen i ennill parch ar lwyfan ehangach Prydeinig, lle bu'n lladmerydd effeithiol iawn dros y mudiad gwyrdd tra oedd yn gweithredu fel Aelod Seneddol cydwybodol dros ei etholaeth. Ond, ni fu'r wleidyddiaeth newydd a'r cydweithio gyda'r Gwyrddion yn gynladwy am yn hir iawn, ac erbyn 1997 roedd y glymblaid wedi chwalu'n deilchion. Roedd gafael Cynog, fodd bynnag, ar etholaeth Ceredigion yn gadarn yn 1997 ac erbyn 2000, ac yntau'n aelod o'r Cynulliad yn ogystal, cefnodd ar Lundain, er mwyn hoelio'i holl sylw ar waith y corff newydd yng Nghaerdydd.

Mae hanes cyfan y cyfnod cyffrous hwn, a'r cefndir diddorol iddo, i'w gael yn y gyfrol, yn ogystal â hanes magwraeth Cynog ym Mrycheiniog ag Aberaeron, a'i ddyddiau coleg yn Aber. Mae'n ddigon gonest i gyfaddef ei gamgymeriad wrth iddo gyfrannu tuag at gwmp Dafydd Wigley fel arweinydd Plaid Cymru, ac mae ei sylwadau ar ei gyd-aelodau yn y Cynulliad yn ddadlennol.

Cefais y gyfrol, fel y ddarlith, yn ddifyr os braidd yn hir, ac mae Cynog i raddau'n cydnabod hynny. Mae hefyd yn nodi ei fod yn tueddu i draddodi areithiau afresymol o hir! Ond dyna yw hanfod steil Cynog, a dyna pam, i raddau helaeth, y bu'n wleidydd dylanwadol – mae'n cynnig ateb llawn a chynhwysfawr i bob cwestiwn, ac mae'n cymryd ei waith o ddifrif.

Mae ambell gwestiwn y byddwn wedi hoffi pe bai Cynog wedi rhoi mwy o sylw iddo. Oedd hi, er enghraifft, wrth edrych yn ôl, yn gamgymeriad tactegol i sefyll lawr o San Steffan a chreu is-etholiad yn 2000? Onid hynny roddodd gyfle i'r Rhyddfrydwyr ail-sefydlu yn yr etholaeth?

Bydd darllenwyr *Papur Pawb* yn mwynhau'r gyfrol hon – mae'n gofnod pwysig o hanes gwleidyddol Ceredigion. Mae hefyd yn gyfrol sensitif a theimladwy mewn mannau. Diolch amdani, Cynog, a diolch am gyfraniad anrhydeddus iawn i'n bywyd cyhoeddus. Diolch hefyd i'r Lolfa am gyhoeddi cyfrol mor raenus a hynny mewn mewn da bryd i'r Nadolig.
Richard E. Huws



Papur Pawb
25 Mlynedd yn ôl

Rhai pytiau wedi eu dethol o rifyn Rhagfyr 1980




MERCHED Y WAWR

Gafwyd noson hwyliog iawn ar Dachwedd 10 yng nghwmni rhyw hanner cant o aelodau o Gangen Aberystwyth pan gawsom sioe ffasiynau yn dangos dillad Antony Shepherd, Machynlleth. Cyflwynwyd y noson gan ein llywydd Medi James, a gyda'i diddordeb a'i gaybod-aeth eang ym myd ffasiwn, disgrifiodd bob gwisg yn fyw a diddorol. Gan fod Twiggy wedi methu â bod yn bresennol, dewiswyd y "modelau" o blith aelodau

stapus cangen Talybont, gyda Lynwen James a Glenys Evans yn dangos dillad plwk a Mair Davies yn gwisgo dillad addas i ferched yn eu harddegau. Ar ddiwedd y noson, mwynhawyd super blasus wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolchwyd i'r rhai a fu'n cymryd rhan gan Ann Jenkins ar ran Gangen Talybont ac Eluned Richards ar ran Merched Aberystwyth. Enillwyd y raffi, sef boc o mwyddau smyrwiol, gan Glenys Evans. Neuadd Fawr.

Steddfod Hanner Call a Dwl



Llongyfarchiadau i Robin Tomos, Pentre-bach a enillodd y wobwr gyntaf yn Steddfod Hanner Call a Dwl a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach yn ddiweddar. Ef oedd pencampwr troi tafod!

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Nos Lun olaf yn Nhachwedd cyfarfu'r Cyngor gyda'r Cadeirydd, Rhian Evans, yn rhoi croeso cynnes i'w chyd-gynghorwyr. Nid oedd gan yr un ohonynt fuddiant personol i'w ddatgelu. Derbyniwyd bod cofnodion mis Hydref yn rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

Adroddwyd bod cyfarfod cyhoeddus ddechrau'r mis yn ymwneud ag Ysbryd y Mwynwyr wedi bod yn dra llwyddiannus gyda chyflwyniadau gwych gan y siaradwyr gwadd ac i aelodau o'r gynulleidfa luosog ddatgelu llawer o wybodaeth hanesyddol ychwanegol oedd yn berthnasol i'r gymuned.

Cwblhawyd holiadur ar gais Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yn delio â'r bwriad i ail-strwythuro heddluoedd Cymru gan y Cadeirydd gan nodi nad yw cael un Awdurdod dros Gymru yn dderbyniol.

Anfonir at y Cyngor Sir i geisio gwybodaeth a chyfarwyddyd ynglyn â sicrhau diogelwch cerrig beddau yn y Fynwent.

Y mae'n debyg bod gwr o Wimbledon yn anfodlon iawn â safle'r biniau ail-gylchu yn Nhal-y-bont ac wedi gohebu â'r Cyngor Sir. Yn ei lythyr diweddaraf y mae'n awgrymu bod y safle ger mynedfa'r Ysgol yn fwy addas gyda digon o le i ail-leoli'r biniau. Ymatebodd y Cyngor Sir trwy egluro nad ydynt yn achosi unrhyw rwystr yn y safle presennol ac y byddai eu hail-leoli yn debygol o beri problem iechyd a diogelwch wrth eu gwacau bob wythnos.

Derbyniwyd adroddiad arolygwr peiriannol cwmni yswiriant y Cyngor ar gyflwr offer y cae bach. Cyfeiriwyd at ddau nam ar ddau o'r offer yn unig.

Trafodwyd llythyr oddiwrth Elin Jones, AC yn egluro'r sefyllfa ynglyn â bwriad i gau ysybtai Tregaron ac Aberteifi. Bydd y Cyngor hwn yn anfon at y Bwrdd iechyd a'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn y sir i fynegi teimladau'r Cyngor yn erbyn hyn.

Disgwylir cael goleuadau ar goeden Nadolig yn y pentref eleni ac ar gais Cymdeithas Elerch goleuadau ar goeden Nadolig ym Mont-goch hefyd.

Y mae Adran Cynllunio'r Cyngor Sir wedi gwrthod y cais i newid defnydd hen ysgol Eglwys Bont-goch i dy byw. Caniatawyd y cais i godi estyniad ym Mhenygro, Bont-goch ac i godi stablau yn Llwyn Adda. Trafodwyd cais i newid adeilad allanol i ddau fwthyn gwyliau yn Nhy'n'r helyg.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Nest Jenkins bod rhan o'r ffordd ger hen gapel Ceulan mewn cyflwr difrifol oherwydd trafaelu mynych gan danceri trymion drosti. Gofynnir i Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir ymgymryd â gwaith cynnal a chadw buan arni.

Goronwy Jones

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Bydd y Cyngor yn barod i dderbyn ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a grwpiau oddimewn i'r gymuned. Anfoner cais ynghyd â chopi o fantolen ariannol at y Clerc: Goronwy Wyn Jones, Glasgoed, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HH erbyn 27ain o Ionawr fan bellaf.

SWYDD DDIDDOROL

Sefydlwyd partneriaeth rhwng Cynghorau Sir Ceredigion, Powys a Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad ac ecodyfi, er mwyn archwilio'r potensial enwebiad UNESCO o'r ardal fel "Gwarchodfa Biosffer Dyfi".

Nid dynodiad cadwraeth yw hyn, ond cyfle i'r fro gael budd economaidd a chymdeithasol allan o warchod ein cryfderau naturiol a diwylliannol.

Mae angen person dwyieithog i arwain trafodaethau gyda phob rhan o'r gymuned leol. Sgiliau cyfathrebu a chydymdeimlad gyda'r gwahanol elfennau o'r gymdeithas (gan gynnwys ffermwyr, rheolwyr tir a busnesau eraill) sy'n bwysig.

Holwch am fanylion:
Ty Bro Ddyfi
52 Heol Maengwyn
Machynlleth
SY20 8DT
01654 703965
andy.rowland@ecodyfi.org.uk

- Swydd lawn amser
- Bod ym Machynlleth
- Ystyrir ceisiadau am rannu'r swydd
- Dyddiad cau: 21ain o Ragfyr

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Newyddion mwyaf y mis diwethaf yw'r wybodaeth fod y ddau gorff sy'n rhedeg yr NHS yng Ngheredigion wedi bod yn trafod cau dau ysybty cymunedol Ceredigion tu ôl i ddrysau caeedig am wythnosau heb i'r cyhoedd wybod. Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl yma nid yw'r penderfyniad terfynol wedi ei gymryd. Diffyg arian sydd wrth wraidd y bwriad yma. Er hyn, mae digon o arian yn yr NHS i ariannu dau gorff ar wahan i redeg y gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion, gyda dau fwrdd rheoli a dau set o uchel swyddogion.



Costau rhedeg un o'r cyrff yma yn unig yw £1.7miliwn, tra fod y diffyg ariannol ddim ond yn £1.4 miliwn. I mi mae'n amlwg beth yw'r cam cyntaf i arbed arian – creu un corff biwrocrataidd mas o ddau, yn hytrach na mynd ati i gau ysybtai.

Mae'r gwasanaeth a'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn ysybtai Tregaron ac Aberteifi yn cael ei werthfawrogi gan bawb. Mae'r staff yn gydwybol a phroffesiynol. Mae ysybtai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg yn ddibynnol ar Dregaron ac Aberteifi er mwyn cymryd cleifion nad sydd angen gofal mwy arbenigol mewn Ysybty Cyffredinol. Bydd yn rhaid brwydro yng Ngheredigion ac yn y Cynulliad i arbed y ddau ysybty – heb sôn am yr angen i berswadio San Steffan i ariannu yr NHS yng Nghymru yn fwy hael ac yn ôl yr angen.

Y ddadl fwyaf yn y Cynulliad yn ystod yr wythnosau a aeth heibio oedd yr un ar Dai Fforddiadwy. Fe gefais y cyfle i gyflwyno fy syniad y dylid rhyddhau rheolau cynllunio i ganiatau tai fforddiadwy i bobl leol fel tai unigol ar blot o dir yng nghefn gwlad. Ar hyn o bryd, mae bron yn gwbwl amhosib i berson ifanc fedru adeiladu tŷ heblaw am ar safle ddynodedig mewn pentref neu dref. Mewn safleoedd o'r math yma, yn aml mae'r tir yn eiddo i ddatblygwr a rhy ddrud i bobol ifanc. Ni chafodd fy syniad gefnogaeth y Llywodraeth ar yr achlysur yma, ond fe fydda i yn parhau i ymladd yr achos yma gan fod cymaint o bobol ifanc yng Ngheredigion yn methu sefydlu cartref yn eu cymuned yng nghefn gwlad.

ANGEN

Anifeiliad Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Llaethdy

Tal-y-bont a'r Cylch

Yn dosbarthu i:
Tal-y-bont, Pentrebach, Taliesin,
Llancynfelyn, Tre'rddol, Ffwrnais,
Eglwysfach a Glandyfi

Cysylltwch â
Dylan neu Catherine
Ffôn: 01970 832516

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bannffed
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-all:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com

yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Cymdeithas y Cŵn Defaid Cymreig



Yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd dydd Mawrth diwethaf, derbyniodd Dafydd Jenkins, Tanrallt, dlws Coffa Tŷ Llwyd Bonnie oddi wrth Gymdeithas y Cŵn Defaid Cymreig am y ci gorau a gafodd ei ddangos yn gweithio yn yr arddangosfa a gynhaliwyd yn Bacheiddon, Aberhosan, nôl ym mis Medi. Ar yr un pryd bu Betsan yn lwcus i ennill Raffl Fawr y Gymdeithas, sef £120. Llongyfarchiadau i'r ddau.

CLWB NOS WENER

Daeth Caryl Glyn a'r Band lan i'r Llew Du nos Wener 25 Tachwedd ar gyfer noson hynod o hwyllog. Band o waelod y sir ydyn nhw, sy'n canu caneuon Cymraeg o blith repertoire Cymraeg poblogaidd y deugain mlynedd diwethaf – ond roedd 'na atyniad arbennig i glybwyr Nos Wener gan fod ein seren gitaryddol lleol, Dafydd Saer, yn chwarae gyda nhw am y tro cyntaf yn gyhoeddus! Ychwanegai Dafydd dipyn o siwgr a sbeis i'r cyfeiliant, ond rhaid canmol Caryl ei hun am ganu mor hyderus braf, ac i'r band o chwech am eu gwaith solet. Mae 'na ddyfodol disgrair i'r band yma, a phrawf o hynny oedd y dawnsio gwyllt a welwyd ar ddiwedd y noson. Agorwyd y noson a diolchwyd i'r Band gan Fal Jenkins (a oedd hefyd yn serenennu ar lawr y ddawns!).

Chi glybwyr, cofiwch am y Cinio Nadolig a gynhelir yn y Llew Du, Tal-y-bont, nos Iau 22 Rhagfyr. I gadw lle ac archebu bwyd, cysylltwch â Martin a Siân ar 832230 neu afiaith@aol.com.

RG



CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensoernïol
Gellincoch, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HL
01478 632768

AM EICH HOLL
ANGHENION BRODWAITH,
CROESBWYTH A
THAESTRIAUA

GALWCH YN
**PWYTHAU'R
SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU
RHYDYPENNAU, BOW
STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122

Nofwyr Llwyddiannus

Llongyfarchiadau i dri o Ysgol Tal-y-bont ar eu llwyddiant mewn gala nofio a drefnwyd gan Glwb Nofio Aberystwyth ar Dachwedd 25ain. Bu Sam Ebenezer a Nia Jones yn llwyddiannus mewn sawl ras.

- Nia Jones**
2il nofio cefn
2il broga
- Sam Ebenezer**
3ydd medli unigol
3ydd pili pala
3ydd cefn
4ydd nofio rhydd



Sam Ebenezer, Nia Jones

Yn absennol o'r llun mae Catrin Hughes a ddaeth yn 4ydd yn y nofio rhydd. Y bore canlynol, teithiodd Nia i Gastell Newydd Emlyn i gystadlu'n y sir ac yna daeth yn 3ydd yn ei hoedran gan ennill medal efydd. Da iawn chi'ch tri.

Clwb Badminton Tal-y-bont

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn ddiweddar ac etholwyd yr aelodau canlynol i'r pwyllgor:
Cadeirydd: Bob Mathews
Is Gadeirydd: Wendy Jones
Ysgrifennydd : Vicky Joseph
Trysorydd: Mark Joseph
Mae aelodau'r Clwb yn chwarae bob nos Fawrth yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

**TEIARS
HUW LEWIS TYRES**

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

